

Dryllio'r Delwau

(Parhad o'r dudalen flaen)

Cafodd Thomas Evans sicrwydd gan Michael Roberts ei fod yn gwbl o'r un farn ag ef ar y mater.

Sasiwn Caernarfon a ddaeth. Holl swyddogion, gweinidogion, pregethwyr a blaenoriaid yn bresennol a Morris Roberts ar y carped o'u blaenau. Ond yn ffodus iddo galwyd ar Richard Jones o'r Wern i'w holi a gwnaeth hynny yn fanwl ac i'r pwrpas, ac yr oedd atebion Morris Roberts yn dra boddhaol i'r holl frawdoliaeth. Wedi hyn mynd at Roberts y Rhos, a chyfododd brawd i roddi cyhuddiad yn ei erbyn – ei fod yn gwadu'r Cyfrifiad. Yr oedd pethau ynglŷn â hyn yn afreolaidd a bu raid gadael yr achos hyd ryw dro arall a gwyswyd Robert Roberts i Gymanfa Dinbych y gaeaf ar ôl hynny.

Ar Chwefror 26 1833 bu farw Richard Jones o'r Wern a'r flwyddyn ddilynol Richard Lloyd, Beaumaris a John Roberts, Llangwm, a'r un flwyddyn amharwyd ar feddwl Michael Roberts nes erbyn hyn yr oedd llywyddiaeth y Gymdeithasfa yn hollol yn nwylo John Elias ac nid oedd nemawr neb a digon o blwc ganddo nac a digon o ddylanwad ganddo i sefyll yn effeithiol i'w wrthwynebu mewn dim.

Dan amheuaeth

Adnewyddwyd yr hen amheuaeth am Roberts y Rhos ac edrychid ar bawb a ystyrrid yn gyfeillion iddo neu a ddywedent ddim o'i blaid ar unwaith fel rhai yn coleddu yr un syniadau ag yntau. Meddylier mewn difrif fod dynion da fel a ganlyn wedi bod o bryd i bryd dan amheuaeth – megis John Jones, Talsarn, Griffith Hughes, Eder, William Charles, Gwalchmai, John Owen, Ty'n Llwyn, John Hughes (y cyntaf) Lerpwl. Cadwyd dynion mor deilwng â John Hughes ac eraill lawer o flynyddoedd heb eu hordeinio, nid am fod neb yn cael dim a oedd yn neilltuol gyfeiliornus yn ei olygiadau ond ei fod ef ac eraill yn cyfeillachu yn rhydd â brodyr penodol yr amheuid eu huniongredded ar y pryd.

Blynyddoedd poenus i'r cyfundeb oedd y rhain meddai Dr Owen Thomas. Ceisiai rhywrai beunydd wthio i feddwl John Elias, John Hughes, Pontrobert, John Jones, Tremadog ac eraill fod amryw o'r pregethwyr ifainc yn gwyro oddi wrth yr hen athrawiaeth a bregethid gan eu tadau, a rhoddent hwythau ormod o goel i'r fath chwedlau a'r rhan fwyaf yn gyffredin 'heb gymaint â rhithyn o sail ynddynt'.

Ymddangosodd fod perygl y llwyddid i fwrw o'r Cyfundeb 'rai o'r dynion gorau oedd ynddo yng Ngogledd Cymru'. Pwy fedr faddau i John Elias yn ei flynyddoedd olaf am wrando ohono ar chwedlau gwael a hollol ddisail yn fynych am rai pregethwyr? Ni fedraf i ddim. Anghysurus iawn fu pethau yn y cyfundeb hyd adeg marwolaeth John Elias a da oedd i hynny ddiwydd, oherwydd cafodd y wlad a'r Cyfundeb lonydd rhag traha a gorthrwm crefyddol a gwleidyddol y fath ddyn.

Bydded i W. H. Jones gofio nad y fi yw y cyntaf i gondemnio John Elias am ei osgo, ond fod pregethwyr mwyaf y Cyfundeb wedi cyfeirio at ei haerneiddiwch a'i ysbryd unbenaethol cyn hyn.

Bu Cymru trwyddi mewn berw byw gan y ddadl ynghlych y system newydd, pan nyddid penillion ar wahanol agweddau o'r Iawn nes oedd pethau dichwaeth yn cael eu

cyhoeddi.

Beth bynnag, daeth Morris Roberts, Brynllin o dan amheuaeth yr hen frodyr manwl, a oedd yn rhy chwannog i ddegymu'r mintys a'r annis a daethpwyd i'w adnabod fel un yr oedd angen cadw llygad arno a'i wyllo. Yntau Morris Roberts pan fyddai â'i galon yn llawn o wres a chariad yr Efengyl, yn enwedig pan fyddai yn ei lawn hwyliau, yn nerthol draethu am oludoedd gras yr Efengyl; ac ar achlysuron felly ni byddai bob amser mor wyladwrus ag y gallasi fod rhag mynd i'r trap.

Darn o bapur

Yr oedd Morris Roberts wedi arfer gwranddo ar Thomas Jones yn traethu ar anherfynolrwydd yr Iawn, a chadwodd Morris Roberts at yr hyn a glywodd yn ei fachgendod. Daeth yn gwestiwn ymhob lle – beth a ddeuai o Morris Roberts? Pryd hyn gofynnodd Mr Davies, Bronheulog ger y Bala, dyn cyfoethog iawn, iddo yn ei dŷ a ysgrifennai ar bapur iddo ei farn ar y Prynedigaeth; a gwnaeth Morris Roberts hynny mewn ychydig eiriau.


Dangosodd John Davies y papur i John Elias gan feddwl y gwellhai pethau rhyngddynt. Rhoes John Elias y papur yn ei boced wedi ei ddarllen, ac yn Llanidloes dewisodd bwyllgor dirgelaidd o rai o'r un hen olygiadau ag ef ei hun a darlennodd y papur iddynt, ac fe'i condemnwyd fel yn cynnwys cyfeiliornad ac oni newidiai Morris Roberts ei farn cyn Sasiwn y Bala, y cawsai ei ddiarddel.

O flaen cymanfa y Bala yr oedd John Elias yn pregethu yn Llangwm ar nos Sadwrn ac yr oedd am gymdeithasu â Morris yng Ngherrigydrudion drannoeth ac aeth Morris Roberts i Langwm i'w gyfarfod yno, i edrych a oedd posibl gwella'r sefyllfa. Dechreuodd yr oedfa iddo yno ond yr oedd wyneb John Elias wedi newid tuag ato. Ni edrychai arno yr un fath a chynt, ac nid oedd am gymdeithasu â Morris Roberts fel arfer. Yr oedd yn ddistaw rhwng y ddau yn y parlwr ar ôl y bregeth. Wedi i John Roberts roddi achos Morris Roberts i lawr ger ei fron, defnyddiodd John Elias iaith lled galed, gan alw Morris Roberts yn Judas a'i fod yn dwyn nodau gau-athro, ei fod yn gyndyn ac y byddai wedi ei ddiarddel yn y Bala oni newidiai ei farn.

Atebodd Morris Roberts ei fod yn meddwl os diarddelid ef am gredu yn Anfeidroldeb Aberth Crist, y byddai yn



John Jones, Talysarn.



Y Parch. Owen Thomas D.D. (1812-1891).

beth newydd, ac mai y fo a fyddai'r cyntaf i gael ei ddiarddel os gwneid hynny, ac hefyd y cawsai lawer o waith os diarddelai bawb oedd yn credu hynny.

'Beth,' meddai John Elias, 'a oes rhyw society ohonoch?'

'Wel, oes,' meddai Morris Roberts, 'Society fawr iawn hefyd.'

'O!' meddai John Elias ar hynny, 'yr wyf finnau yn credu yn anfeidroldeb person Crist, ond Iawn yw Iawn er hynny.' Ac felly ymlaen...

Bu yno lawer o siarad ond dibennodd pethau yn waeth yn lle'n well. Ymddangosai John Elias yn lled wyllt ac ni chái Morris Roberts gysgu efo fo y noson honno.

Yn y Bala

Ymhen ychydig ddyddiau dyna nhw yn y Bala a rheddodd Morris Roberts at Richard Jones o'r Wern i ddweud yr hanes. Cynghorodd yntau Morris Roberts i arafu a bod yn wyladwrus. Yr oedd dau o hen flaenoriaid y Bala a William Jones, Rhiwaedog wedi cyfarfod â John Elias ym Mronheulog i sôn am achos Morris Roberts a bu llawer o siarad yno, a John Elias yn benderfynol o ddiarddel Morris Roberts yn y Sasiwn. Dywedasant wrtho eu bod hwy wedi clywed y bregeth honno gan Morris Roberts, a amheuid, ond na ddarfu iddynt hwy sylwi fod un dim ynddi ond gwirionedd.

Fore y dydd cyntaf o'r Sasiwn yr oedd cwrdd o'r pregethwyr a John Elias yn y gadair yn traethu yn ofnadwy am y system newydd, a'i fod ef yn deall yn awr fod llawer yn eu plith hwy yn ei chredu ac yn llechwraidd yn ei phregethu a'i dysgu. Gofynnodd farn amryw am y prynedigaeth. Atebid gan bob un yn foegar iddo, a rhoddodd John Elias y gymeradwyaeth uchaf i'w hatebion, yn enwedig i'r rhai a adroddent adnod o'r Beibl. Yna cododd Richard Jones o'r Wern a gofynnodd i John Elias beth oedd yn ei geisio; ac ymhen ennyd cafodd Morris Roberts gysle i ddweud ei farn ar y Prynedigaeth. Symudodd at risiau y plwpud, a dringodd ran o'r grisiau, a darlennodd gynnwys y papur yr oedd y bwyllgor wedi ei gondemnio yn Llanidloes air am air fel yr oedd. A dywedodd ryw hen bregethwr o Dde Cymru fod barn y bachgen yr un fath â'r lleill yn gymwys.

Bu distawrwydd am ychydig heb neb yn dweud dim pan gododd John Elias ar ei draed gan edrych drwy ei fysedd a dweud fod barn Morris Roberts wedi ei

(Parhad ar dudalen 17)